Cenn@d

MAI 11 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 63

# Cadeirio archesgob newydd Cymru yr Eglwys yng Nghymru



Yn dilyn ymddeoliad yr Archesgob John Davies, etholwyd archesgob newydd i'w olynu fis Rhagfyr diwethaf. Ac ar 30 Ebrill eleni cafodd Andrew John, sef esgob Bangor, ei gadeirio'n archesgob newydd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghadeirlan Deiniol Sant ym Mangor. Gyda phlant a phobl ifanc yn cael lle amlwg yn y gwasanaeth, cerdd mewn Ffrangeg, cerddoriaeth oedd wedi ei chyfansoddi'n arbennig ar gyfer yr achlysur, côr y gadeirlan ar ei orau a chadeirlan yn llawn o dystion i ddymuno'n dda iddo, bu'n ddiwrnod i'w gofio.

Cafwyd pregeth arbennig gan yr Archesgob, ac oedfa yn ei chyfanrwydd oedd yn wledd i'r llygad a'r glust. Yng Nghapel Mair yn y gadeirlan gwnaed y Datganiad Cadeirio Synodaidd gan yr Archesgob, gan ddatgan, 'Yr wyf fi, Andrew, Archesgob Cymru, trwy Ragluniaeth Ddwyfol, yn ddifrifol yn datgan y byddaf yn ufuddhau i gyfansoddiad, canonau, cyfreithiau ac arferion cymeradwy yr Eglwys yng Nghymru yn weddus, ac y byddaf hyd eithaf fy ngwybodaeth, fy ngallu a'm nerth yn cynnal ac yn amddiffyn hawliau a rhyddfreiniau ei Chorff Llywodraethol.'

Mae modd gwylio'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd ar sianel Youtube Esgobaeth Bangor. Un a oedd yn y gwasanaeth oedd Aled Davies, a chafodd gyfle i holi'r archesgob newydd ar ran *Cenn@d* am ei obeithion a'i weledigaeth.

**Yn y lle cyntaf, llongyfarchiadau ar gael dy ethol yn Archesgob Cymru, a dymunwn yn dda i ti ar ddechrau'r bennod newydd hon. Wrth gychwyn ar y daith, tybed beth yw dy weledigaeth a'th brif obeithion wrth ymgymryd â dyletswyddau archesgob?**

Un o fy mhrif obeithion a'm gweledigaeth fel archesgob yw y gall Cymru adnabod cariad achubol Iesu Grist, yn enwedig yn y tymor hwn, cyfnod y Pasg – gwledd fawr a gŵyl gobaith. Credwn yng ngrym cariad dros gasineb a bywyd dros farwolaeth. Mae'r pŵer i ddewis, i gyfeirio ein hunain at y ffordd hon o fyw, yn wirioneddol drawsnewidiol. Fy ngobaith, fy ngweddi yw ein bod ni yma yng Nghymru yn byw'r newyddion da hyn yn y penderfyniadau mawr a llai a wnawn.

**Amen i hynny, a heb os mae honno'n weledigaeth sy'n perthyn i ni i gyd, gobeithio. Ond gwyddom nad yw'r gwaith yn hawdd yn y cyfnod rydym yn byw ynddo ar hyn o bryd. Beth yn dy farn di fydd y prif heriau fydd yn wynebu'r eglwysi dros y degawd nesaf?**

Mae sawl her yn wynebu ein heglwysi a'n cymdeithas dros y degawd nesaf. Mae mater newid hinsawdd, a hynny'n gwbl briodol,

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cymorth Cristnogol yn penodi Prif Weithredwr newydd
Tudalen 3

Gweddi'n magu perthynas
Tudalen 6

'Tu ôl i'r Blwch' – arddangosfa newydd Cefyn Burgess yn Storiel, Bangor
Tudalen 7


## *Cadeirio archesgob newydd Cymru*

*(parhad o dudalen 1)*

ar frig agenda ein cenedl, ac mae'r Eglwys yng Nghymru wedi penodi ei Hyrwyddwr Newid Hinsawdd cyntaf. Yng nghyfarfod ein Corff Llywodraethol yr wythnos hon cymeradwywyd fframwaith digarbon sy'n annog ein holl eglwysi i symud yn gyflym at sero net. Rydym hefyd yng nghyd-destun rhyfeloedd parhaus a gwrthdaro chwerw mewn gwahanol leoedd yn y byd. Mae'r tywallt gwaed yn Wcráin, a ganiatawyd mewn modd dychrynllyd gan ran o'r Eglwys, wedi ein hatgoffa ei bod yn fwy anodd cadw'r heddwch na dechrau rhyfel. Mae dadlau am y gwir yn gostus. Pan fydd cyfiawnder dan fygythiad, rydyn ni'n dod yn rhan o gydweithredu â drygioni. Mae'r rhain yn ein hatgoffa ein bod yn byw mewn cyfnod bregus.

**Wrth sôn am gyfnod bregus, rydym i gyd yn ymwybodol o'r lleihad a welwyd yn nifer y plant a theuluoedd o fewn ein cynulleidfaoedd. Tybed a oes gan yr Eglwys yng Nghymru gynlluniau i geisio ymestyn allan er mwyn cyrraedd a denu'r to iau i mewn i fywyd yr eglwys?**

Bydd gan bob esgobaeth o fewn yr Eglwys yng Nghymru ei chynlluniau ei hun ar gyfer plant a theuluoedd. Yma, yn Esgobaeth Bangor, un o'n blaenoriaethau yw croesawu plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r Prosiect Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr esgobaeth yn anelu at alluogi gweinidogaethau newydd yn y maes hanfodol hwn o'n bywyd a'n cenhadaeth. Mae Grŵp Elen wedi'i sefydlu i ddod ag arweinwyr a gwirfoddolwyr y weinidogaeth hon ynghyd o bob rhan o'r esgobaeth i rannu newyddion a syniadau da ac i weddïo gyda'n gilydd. Mae gennym nifer o Weinidogion Teulu Trwyddedig Lleyg yn gweithio o fewn Ardaloedd Gweinidogaeth i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.






**Mae'n dda iawn clywed am gynlluniau newydd a mentergarwch. Wrth ystyried ein tystiolaeth Gristnogol yn y Gymru gyfoes, ôl-Covid, tybed a wyt yn credu bod angen mwy o gydweithio rhwng yr enwadau yng Nghymru? Mewn cyfnod lle rydyn ni'n gweld eglwysi a chapeli'n cau, ac ambell gymuned bellach heb yr un addoldy yn y pentref, a oes yna le i ddatblygu cydweithio a chydaddoli yn lleol rhwng cynulleidfaoedd enwadol, er mwyn sicrhau bod yna dystiolaeth Gristnogol yn parhau o fewn y gymuned?**

Yn fy anerchiad yn y gwasanaeth cadeirio, pwysleisiais ein bod hefyd wedi gweld cydweithio fel eglwysi, ar unrhyw beth mwy na bywyd lleol, yn broblematig. O'm rhan i, rwyf am wahodd cyd-weithwyr i sgwrs am ffyrdd y gallwn, gyda'n gilydd, fendithio pobl Cymru – yn ein hymrwymiad ar y cyd, yn ein dwy iaith, i'n holl gymunedau. Byddaf yn ysgrifennu at eglwysi, hen a newydd, yn fuan iawn ar gyfer cael sgyrsiau gonest am ble yr ydym a sut y gallwn wneud cariad achubol Iesu Grist yn fwy gweladwy ar draws y wlad hon. Ac i'm cyfeillion annwyl o ffydd arall, yr wyf finnau hefyd yn gwneud y gwahoddiad hwn: mae arnom angen ein gilydd a gallwn wneud mwy gyda'n gilydd nag ar wahân. Tybed beth sydd gan y dyfodol i'n gwahanol gymunedau ffydd a sut y gallwn reoli dyfodol sy'n profi'n well na'n gorffennol?

**Diolch o galon, Andrew, am y sgwrs, a gobeithio'n wir y gwelwn wireddu llawer o'r hyn a rannwyd yma. Bendith Duw ar dy waith.**

